

Siarad, Dysgu, Gwneud – y gwersi a ddysgwyd a’r argymhellion polisi

Mae’r papur hwn yn cyd-fynd â’r gwerthusiad llawn o Siarad, Dysgu, Gwneud (SDG), cynllun treialu galluogrwydd ariannol y Gwasanaeth Cyngori Ariannol. Mae’n amlinellu oblygiadau polisi posibl y canfyddiadau o’r gwerthusiad ac mae’n nodi argymhellion MAS ar gyfer cefnogaeth galluogrwydd ariannol sy’n canolbwyntio ar rieni yn y dyfodol. Mae’r adroddiad llawn ‘Siarad, Dysgu, Gwneud: ymyrraeth galluogrwydd ariannol i rieni’ ar gael yma (<https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/research>).

Trwy gydol y papur defnyddir y term ‘rhiant’ i gyfeirio at unrhyw oedolyn sydd â chyfrifoldebau rhianta am blentyn, a all gynnwys amrywiaeth o ofalwyr eraill.

Crynodeb

- Mae galluogrwydd ariannol oedolion yn cael ei siapio a’i seilio ar yr hyn a welir, a brofir ac a ddysgir yn ystod plentyndod a glaslencyndod. Bydd arferion a gwerthoedd ariannol plant yn cychwyn ffurfio yn gynnar iawn yn ystod eu hoes. Mae dadl gref dros dargedu adnoddau i gefnogi datblygu galluogrwydd ariannol mewn plant a phobl ifanc.
 - Mae datblygu galluogrwydd ariannol da yn gofyn am addysg ariannol yn y cartref ac mewn cymunedau, yn ogystal ag yn yr ysgol. Mae rhieni yn ddylanwadwyr allweddol ar alluogrwydd ariannol plant. Mae cysylltiadau uniongyrchol rhwng yr hyn y mae rhieni yn ei wneud ag ymddygiad ariannol eu plant. Felly mae polisi ac arferion sy’n canolbwyntio ar gefnogi rhieni i drafod arian gyda’u plant a’u dysgu amdano felly yn cynnig cyfle sylweddol i siapio galluogrwydd ariannol cenedlaethau’r dyfodol.
 - Dangosodd gwerthusiad o SDG, ein cynllun peilot rhianta, y gall ymwreiddio cefnogaeth i helpu rhieni i drafod arian gyda’u plant mewn darpariaeth rianta fod yn effeithiol wrth wella deilliannau yn gysylltiedig â galluogrwydd ariannol i blant a phobl ifanc a rhieni.
 - Mae cyfleoedd sylweddol i ddefnyddio’r hyn a ddysgwyd i gyrraedd rhieni a phlant ar draws y Deyrnas Unedig ar raddfa fawr. Rydym yn argymhell:
- Y dylai comisiynwyr cefnogaeth i rieni ystyried y model SDG o ychwanegu modiwl ar reoli arian at raglenni rhianta sy’n bodoli. Bydd y dull o gyflwyno’r rhaglen yn systematig yn amrywio ar draws cenedloedd y Deyrnas Unedig a byddai MAS yn croesawu gweithio gydag adrannau llywodraeth ac awdurdodau lleol i archwilio sut y gellir cyflawni hyn ar raddfa fawr.
 - Dylai polisiâu a strategaethau sy’n siapio cefnogaeth rianta gynnwys gallu rhieni i helpu eu plant i ddysgu am arian fel deilliant craidd ac ystyried cyfleoedd i ymwreiddio agweddau ar SDG yn y dull cyflwyno.
 - Dylai SDG gael ei brofi fel pecyn ar ei ben ei hun i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sy’n cefnogi rhieni tu hwnt i ffiniau rhaglenni rhianta wedi eu strwythuro, fel gweithwyr allweddol teuluoedd a gwasanaethau help cynnar, gweithwyr cymdeithasol, a chynghorwyr ar ddyled.

Cefndir

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol (MAS) yn wasanaeth annibynnol ledled y Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gan y Llywodraeth er mwyn gwella gallu pobl i reoli eu materion ariannol.

Dengys tystiolaeth MAS bod llawer gormod o bobl yn y Deyrnas Unedig mewn trafferthion ariannol - mae 8.3 miliwn o oedolion yn y Deyrnas Unedig mewn gorddyled ac ni allai 11.9 miliwn dalu bil annisgwyl o £300 neu ni fyddent yn gwybod sut y byddent yn ei dalu. Mae MAS yn cynnwys pwyslais ar blant a phobl ifanc yn ei waith oherwydd credwn na fydd yn bosibl i ni ymdrin â'r her hon yn y tymor hir a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol o oedolion yn alluog yn ariannol, heb roi pwyslais ar addysg ariannol yn ystod plentyndod a glaslencyndod – dangosodd ein hymchwil bod galluogrwydd ariannol yn gysylltiedig â sgiliau, gwybodaeth, meddylfryd, agweddau ac ymddygiad a ddatblygwyd yn ystod plentyndod, ac y gall y galluoedd a'r arferion hyn ddechrau datblygu o oedran cynnar iawn.¹

Er mwyn datblygu galluogrwydd ariannol rhaid i blant sylwi ar y defnydd o arian yn gyson, siarad amdano a'i brofi. Mae rhieni yn chwarae rôl allweddol – cânt eu gweld gan blant a phobl ifanc fel y ffynhonnell addysg a chynghor allweddol am arian², ac mae cysylltiadau uniongyrchol rhwng pethau y gall rhieni eu gwneud o gwmpas arian, fel dangos ymddygiad ariannol galluog a rhoi cyfrifoldeb i blant am benderfyniadau cynilo a gwario, ag ymddygiad ariannol eu plant. Mae rhieni mewn sefyllfa ddelfrydol i roi cyfleoedd i blant brofi a thrafod arian o ddydd i ddydd.

¹ Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol; Whitebread, D. a Bingham, S. (2013). *Habit Formation and Learning in Young Children*. Ar gael yn

<https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/habit-formation-and-learning-in-young-children>

² Gweler er enghraifft, MAS, *Galluogrwydd ariannol plant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig*, Mawrth 2016. Ar gael yn <https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/research>

Ymateb MAS - Siarad, Dysgu, Gwneud

Cynlluniwyd SDG fel ymateb i'r dystiolaeth gynyddol bod rhieni yn ddylanwad hanfodol ar alluogrwydd ariannol plant a phobl ifanc a hefyd bod dechrau yn gynnar o bwys³, a bod diffyg darpariaeth a fwriadwyd i gefnogi rhieni i helpu eu plant i ddysgu am arian. Ein man cychwyn oedd yr angen i ddatblygu ymyrraeth a fyddai'n cael yr ymgysylltiad mwyaf gan rieni, yn rhoi gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon, a sicrhau y byddai'r model yn gallu cael ei chyflwyno yn effeithiol a chyson mewn lleoliadau gwahanol.

Modiwl galluogrwydd ariannol 2 awr yw SDG i gefnogi rhieni i siarad â'u plant am arian a'u dysgu amdano. Fe'i cyd-gynlluniwyd gydag ymarferwyr rhianta yng Nghymru a'i gyflwyno fel wythnos ychwanegol ar ddiwedd dwy raglen rianta, Cysylltiadau Teuluol, a'r Blynyddoedd Rhyfeddol, yng Nghymru yn ystod 2016-17. Rhoddir manylion am ddylunio a gweithredu'r rhaglen yn yr adroddiad gwerthuso llawn.

Roedd gan SDG y nodau canlynol:

- Rhoi'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i rieni i siarad â'u plant am arian
- Addysgu rhieni am bwysigrwydd siarad â'u plant am arian o oedran cynnar a newid agweddau am ba mor gynnar y dylid siarad â phlant am arian
- Deall effaith tymor hwy cynnwys addysg ariannol yng ngweithgareddau dyddiol rhieni gyda'u plant.
- Galluogi rhieni i helpu eu plant i ddatblygu arferion ariannol positif a fydd yn aros gyda nhw trwy gydol eu hoes ac yna, yn cael effaith ar alluogrwydd ariannol y rhieni eu hunain.
- Rhoi model gyda thystiolaeth amdani i gyllidwyr, comisiynwyr ac ymarferwyr i'w defnyddio yn eu hymyraethau.

³ Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol; Griffiths, A. a Ghezelayagh, S. (2018) "Children and Young People and Financial Capability: Needs Analysis". Ar gael yn

<https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/research>

Canfyddiadau Bras y

Gwerthusiad

Cynhaliwyd gwerthusiad o SDG trwy werthusiad proses oedd yn anelu at ddeall sut yr oedd SDG yn cael ei gyflwyno, a gwerthusiad effaith, oedd yn anelu at fesur effaith SDG ar agweddau ac ymddygiad rhieni. Cynhaliwyd arolwg gyda'r rhieni ar wahanol gyfnodau a chynhaliwyd ymweliadau ansoddol i ddeall yr effeithiau ar rieni yn y tymor hwy. Nodir manylion y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad gwerthuso sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Dangosodd y gwerthusiad bod SDG wedi cael effaith gadarnhaol ar:

- **Wybodaeth rhieni am sut i siarad â'u plant am arian** - Dywedodd rhieni mai un o'r prif wersi o'r sesiwn SDG oedd nad yw hi 'byth yn rhy gynnar' i siarad â'ch plant am arian. Mae hyn yn bwysig oherwydd:
 - Mae gan agwedd rhieni at ddysgu eu plant am arian rôl i'w chwarae wrth ddatblygu eu galluogrwydd ariannol
 - Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cael rhieni i feddwl y dylid rhoi profiad gydag arian i blant yn iau ag ymddygiad cynilo gweithredol eu plant ac mae cysylltiad anuniongyrchol â rheolaeth ariannol o ddydd i ddydd.
- **Gallu plant i ddelio ag arian a'i reoli** – yn benodol, cynnydd yn y nifer o rieni sy'n rhoi arian poced i'w plant, a chynnydd yng ngallu'r plant i reoli eu harian neu lwfans eu hunain o ddydd i ddydd. Mae hyn yn bwysig oherwydd:
 - mae plant â chyfrifoldeb am eu penderfyniadau gwario yn fwy tebygol o ddeall gwerth arian a bod angen gwneud dewisiadau wrth wario arian; maent yn fwy tebygol o allu esbonio dewisiadau a wnaed wrth wario; ac i ddeall y gwahaniaeth rhwng yr hyn y maent yn ei ddymuno a'r hyn y mae arnynt ei angen

- mae plant sydd yn cael arian yn gyson, beth bynnag yw'r swm, yn dangos gwell ymgysylltiad ariannol ac ymddygiad sy'n dangos mwy o alluogrwydd ariannol.

- **Rhieni yn cofnodi bod eu plant yn gallu gweld y gwahaniaeth rhwng y pethau y mae arnynt eu heisiau a'r pethau y mae arnynt eu hangen** – roedd cynnydd yn y nifer o rieni SDG a nododd bod eu plentyn yn gallu gweld y gwahaniaeth rhwng rhywbeth y mae arnynt ei eisiau (e.e. melysion), a rhywbeth y mae arnynt ei angen (e.e. bwyd).
- **Rhieni yn credu y dylent gael sgysiau am arian a rhoi profiad o arian i blant yn iau** – Mae hyn yn bwysig oherwydd mae siarad am arian gyda phlentyn, a/neu ddangos i blentyn sut i gyflawni tasgau yn ymwneud ag arian, yn cael eu cysylltu yn aml â gwell galluogrwydd ariannol.
- **Amllder trafodaethau yn ymwneud ag arian ynglŷn â chwmnïau sy'n ceisio gwerthu pethau** trwy hysbysebion a rhai rhaglenni teledu wedi cynyddu ymhlith rhieni SDG. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'r ffaith bod rhieni yn siarad â'u plant am y ffaith bod hysbysebu yn digwydd ar-lein yn dylanwadu ar feddylfryd ariannol y plentyn, sydd yn ei dro yn cael dylanwad ar eu hymddygiad cynilo gweithredol.
- **Gorddyled y rhieni eu hunain** - nid oedd SDG yn canolbwyntio yn bennaf ar agweddau'r rhieni eu hunain at arian na'u hymddygiad. Ond roedd gostyngiad yn y gyfran o rieni SDG oedd yn dweud eu bod mewn gorddyled⁴. Mae'r enghreifftiau a roddwyd gan rieni o'r gweithredoedd a ysgogwyd o fod yn rhan o'r SDG yn cynnwys: SDG yn annog rhieni i wynebu eu dyledion, newid eu harferion gwario eu hunain ac ymwneud yn fwy penodol â pha arian sy'n dod i mewn ac

⁴ Cyfrifwyd y dull mesur hwn trwy gyfuno atebion rhieni i ddau gwestiwn: y graddau yr oeddent yn teimlo bod talu biliau ac ymrwymadau credyd yn faich, ac os oeddynt wedi mynd ar ei hôl hi, neu fethu, gydag unrhyw daliadau ar gyfer ymrwymadau credyd neu filiau domestig am o leiaf dri o'r chwe mis diwethaf. Os oeddent yn dweud bod cadw at filiau/ymrwymadau credyd yn faich mawr, neu eu bod wedi mynd ar ei hôl hi/wedi methu taliadau, roeddent yn cael eu dosbarthu yn bobl mewn gorddyled.

allan o gyfrif y cartref. Dengys ein dealltwriaeth bod plant sy'n tyfu mewn cartrefi â gorddyled yn gwneud yn waeth mewn sawl un o'r mesuriadau galluogrwydd ariannol, felly gall lleihau gorddyled ddwyn manteision i'r rhieni a'r plant.

Nodir manylion llawn y canlyniadau yn yr adroddiad gwerthuso sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Oblygiadau Polisi a'r camau nesaf

Dangosodd SDG ei bod yn bosibl cael effaith positif ar ddeilliannau galluogrwydd ariannol plant, pobl ifanc a rhieni trwy ymyrraeth gymharol fer yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni i ddysgu eu plant am arian.

Mae'r effaith ar rai deilliannau galluogrwydd ariannol rhieni yn awgrymu y gall gynnig model i wella galluogrwydd ariannol dwy genhedlaeth ar unwaith, ac o bosibl, cefnogi 'torri'r cylch' o ddiffyg galluogrwydd ariannol rhwng cenedlaethau. Gallai hyn fod yn ffactor wrth gefnogi teuluoedd i gyflawni deilliannau cadarnhaol yn fwy eang, gan wella'r gweithgaredd efallai i gynyddu symudedd cymdeithasol neu leihau tldi. Yn ychwanegol, gall y ddealltwriaeth yma gael ei hadlewyrchu mewn polisi sy'n ymwneud â dysgu i deuluoedd a'r amgylchedd dysgu yn y cartref, pwnc sydd o ddiddordeb ymhlith llunwyr polisïau yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.

Ychwanegodd SDG at sail gyfyngedig o dystiolaeth ar yr hyn sy'n debygol o fod yn effeithiol wrth gefnogi rhieni fel 'canolwyr' mewn addysg ariannol i blant a phobl ifanc. Mae'n dangos un dull y profwyd ei fod yn effeithiol ar lawer o ddeilliannau ac mae'n rhoi syniad bod y model o gefnogi rhieni i helpu eu plant yn cynnig addewid i'w weithredu yn fwy eang mewn addysg ariannol. Mae'n rhoi sail ar gyfer profi pellach ar ystod o dulliau i gefnogi rhieni i ddeall yr holl gyfleoedd i fod yn effeithiol.

Wrth ddysgu oddi wrth ein gwerthusiad, rydym yn argymhell:

- Dylai Awdurdodau Lleol a chomisiynwyr eraill rhaglenni rhianta a chefnogaeth ehangach i deuluoedd yn ymwneud â rhianta, dysgu teuluol, dyled, cynhwysiant neu les ariannol, ystyried ymwreiddio SDG fel modiwl yn y ddarpariaeth sy'n bodoli, a chefnogi ymarferwyr i ddatblygu'r sgiliau i'w ddarparu.
- Dylai llunwyr polisi sy'n dylunio dulliau sy'n rhoi pwyslais ar deuluoedd i wella deilliannau, gynnwys galluogrwydd ariannol fel deiliant craidd ac ystyried sut y gall SDG gael ei gyflwyno fel rhan o weithredu'r dulliau hyn. Gall y cyfleoedd penodol ar draws y Deyrnas Unedig gynnwys:
 - Dilyniant rhaglen 'Troubled Families' yn Lloegr – gallem weithio i ymwreiddio cyflwyno SDG trwy gefnogaeth i rieni mewn Awdurdodau Lleol sydd wedi blaenoriaethu deilliannau o gwmpas lles/dyled ariannol.
 - Cefnogaeth lleihau gwrthdaro teuluol y DWP – gall yr hyn a ddysgwyd oddi wrth SDG gael ei ddefnyddio i ddylunio agweddau ar yr hyn a gynigir yn canolbwyntio ar berthynas rhieni, fel trafodaethau adeiladol gyda phlant am wrthdaro parthed arian.
 - Gallai gweithredu cynllun gweithredu ymgysylltu rhieni Llywodraeth yr Alban, *Learning Together*, ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r SDG i ddatblygu rhaglenni dysgu teuluol newydd a defnyddio ParentZone Scotland i rannu offer SDG yn uniongyrchol â rhieni.
 - Sicrhau bod Strategaeth Cefnogi Teuluoedd a Rhianta Gogledd Iwerddon yn y dyfodol yn ystyried cynnwys galluogrwydd ariannol, ac yn ystyried cyflwyno SDG, neu dreialu dulliau newydd yn seiliedig ar SDG yn gweithio gyda theuluoedd cyfan, fel dewis i gyflawni hyn.

- Parhau i ymwreiddio SDG mewn dulliau lleol o weithredu Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yng Nghymru gan sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno ym mhob awdurdod lleol, ac ystyried cyfleoedd i gynnwys SDG mewn cynlluniau lleol yn deillio o fwy o bwyslais ar ddysgu teuluol trwy ganolfannau dysgu Cymunedol.
- Ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd a'r offer o SDG yn ymgyrchoedd y llywodraeth sy'n targedu rhieni a gofalwyr plant ifanc, fel 'Mae 'na amser' yng Nghymru a 'Play, Talk, Read' yn yr Alban.
- Profi ymyraethau byrrach gyda rhieni gan ddefnyddio deunyddiau SDG, ac archwilio effaith cynnig offer ac awgrymiadau ar-lein /trwy ap.
- Profi SDG mewn cyd-destun dysgu teulu cyfan, lle mae oedolion a phlant yn dysgu gyda'i gilydd – byddai hyn yn gofyn am addasu dulliau i alluogi rhieni i ryngweithio gyda phlant yn ystod y cyflwyno⁵.

Mae MAS yn awyddus i ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol eraill a phartneriaethau lleol i fynd ar ôl y cyfleoedd hyn a datblygu cynlluniau i ymwreiddio SDG yn yr holl bolisi perthnasol a'u cyflwyno yn gyffredinol ym mhob cenedl yn y Deyrnas Unedig.

Byddem hefyd yn croesawu trafodaethau gydag unrhyw bartneriaid cyllido/comisiynu neu ddarparu posibl am gyfleoedd i brofi meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Gall y cyfleoedd i brofi ymhellach gynnwys:

- Ymarferwyr hyfforddiant sy'n cefnogi rhieni gyda sialensiau rhianta ar sail fwy anffurfiol o ddydd i ddydd, yn hytrach na fel rhan o raglenni rhianta ffurfiol dros nifer o wythnosau. Gallai hynny gynnwys gweithwyr allweddol teuluoedd ac ymarferwyr help cynnar, gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, nyrsys teuluol, staff canolfan blant/teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol dysgu oedolion/teuluoedd.
- Ymarferwyr hyfforddiant sy'n arbenigo mewn cefnogi rhieni fel unigolion – e.e. cynghorwyr dyledion, cynghorwyr canolfannau gwaith, a darparwyr cyngor lleol eraill – gyda golwg ar adeiladu elfennau i mewn i SDG i'w helpu i ystyried effaith sialensiau ariannol ar eu plant a chynghori ar sut i ddod o hyd i atebion adeiladol i'r rhain.

⁵ Mae tystiolaeth yn cyfeirio at fanteision dysgu teuluol i gynyddu lefel cyrhaeddiad plant, gan gulhau'r bwch rhwng y rhai sy'n cyflawni orau a gwaethaf, paratoi plant ar gyfer y farchnad lafur sy'n newid yn gyflym a helpu i sicrhau adferiad economaidd am gyfnod sylweddol. Mae'r dystiolaeth ehangach yn awgrymu manteision o ran llythrennedd oedolion, ymgysylltu a diddordeb oedolion yn addysg eu plant, ac agweddau mwy positif tuag at yr hyn y mae oedolion eu hunain yn ei ddysgu. NIACE (2013) Family Learning Works: The Inquiry into Family Learning; BIS RESEARCH PAPER NUMBER 93 Evidence of the Wider Benefits of Family Learning: A Scoping Review TACHWEDD 2012